Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cymryd rhan

Mehefin 2008

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**


**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| Sail dystiolaeth yr arolwg | 3 |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio'n strategol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion? | 4 |
| Pa mor dda yw ansawdd y ddarpariaeth? | 5 |
| Pa mor dda yw ansawdd y cynhwysiad? | 5 |
| Pa mor dda y mae staff yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo? | 6 |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio'n strategol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion?** | **8** |
| Sut mae AALlau yn cynllunio i fodloni anghenion disgyblion? | 8 |
| Pa mor hawdd yw hi i ddisgyblion gael mynediad i ganolfannau adnoddau? | 8 |
| Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio i ddisgyblion gael mynediad llawn i'r cwricwlwm? | 9 |
| Pa mor dda y mae AALlau yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gynllunio ar gyfer disgyblion? | 9 |
| Pa mor dda y mae AALlau yn cefnogi staff canolfannau adnoddau? | 11 |
| Pa mor dda y mae AALlau yn monitro ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion? | 11 |
| **Pa mor dda yw ansawdd y ddarpariaeth yn y canolfannau adnoddau?** | **13** |
| **Pa mor dda yw ansawdd y cynhwysiad?** | **15** |
| Mynediad i ddosbarthiadau a gweithgareddau'r brif ffrwd | 15 |
| Pa mor wybodus yw staff prif ffrwd am anghenion disgyblion | 15 |
| Cymryd rhan gydag ysgolion eraill | 16 |
| **Pa mor dda y mae staff yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo?** | **17** |
| **Atodiad 1: Arfer dda** | |
| **Atodiad 2: Geirfa / cyfeiriadau** | |

## Cyflwyniad

1 Mae ‘Cymru Well’, a gyhoeddwyd yn 2002, yn amlinellu gwerthoedd craidd cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a hyrwyddo cymdeithas oddefgar lle gwerthfawrogir amrywiaeth. Mae’r ddogfen hon yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwneud Cymru yn gwbl gynhwysol a gwneud ei heconomi a’i chymdeithasau yn gynaliadwy.

2 Nid oes unrhyw ymchwil yng Nghymru i ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 5-16 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol ac yn cael eu haddysgu mewn canolfannau adnoddau un pwrpas sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd. Darpariaeth awdurdodau addysg lleol yw’r canolfannau adnoddau hyn sydd weithiau’n cael eu hadnabod yn unedau. At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir atynt fel canolfannau adnoddau. Mae Estyn yn arolygu gwasanaethau awdurdodau addysg lleol ac ysgolion. Nid yw arolygiadau yn arfarnu ansawdd yr addysg mewn canolfannau adnoddau yn benodol. Mae unrhyw gyfeiriadau at eu hansawdd wedi’u cynnwys yn yr adrannau ar ddarpariaeth ar gyfer AAA mewn adroddiadau arolygu ysgolion.

3 Nid oes digon o ddata cyfoes a thrylwyr am y canolfannau adnoddau hyn. Mae archwiliadau o ddata diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos nad oes unrhyw gysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau addysg lleol yn cynllunio ar gyfer canolfannau adnoddau o’r fath. Nid oes gan rai AALlau unrhyw ddarpariaeth ar wahân, tra bod AALlau eraill yn ariannu canolfannau adnoddau mawr.

4 Mae’r adroddiad cylch gwaith hwn, ‘Cymryd rhan’, yn cynnwys barnau ac argymhellion ar y canlynol:

- pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio’n strategol i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion sy’n mynychu canolfannau adnoddau;
- ansawdd y ddarpariaeth a chynhwysiad mewn canolfannau adnoddau; a
- pha mor dda y mae staff mewn canolfannau adnoddau yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i’r ysgol uwchradd.

Mae Atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad yn rhoi enghreifftiau o arfer dda. Mae rhestr geirfa yn Atodiad 2.

## Cefndir

5 Ym mis Ionawr 2006, dosbarthwyd bod gan 39% o’r disgyblion ar y cofrestri AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru anawsterau dysgu cymedrol.[1] Pan gânt gymorth priodol ar gyfer eu gofynion unigol, gall y rhan fwyaf o’r dysgwyr hyn fynychu’r un lleoliadau addysgol â’u cyfoedion ac mae llawer yn ennill yr un cymwysterau, er y gallent gymryd mwy o amser i wneud hyn. Gallent fod ag anghenion ychwanegol hefyd.

6 Nid oes gan bob disgybl ag anawsterau dysgu cymedrol ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Caiff eraill gymorth gan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael cymorth ychwanegol gan eu hathrawon sy’n gweithredu ar gyngor gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol neu’r swyddog enwebedig AAA yn yr AALl. Mae’r trefniadau ar gyfer y cymorth hwn a’r canlyniadau ar gyfer y dysgwr wedi’u hamlinellu mewn cynllun addysg unigol (CAU).

7 Roedd adroddiad cylch gwaith diweddar Estyn, ‘Llwyddiant i bawb’, a gyhoeddwyd yn 2005, yn canolbwyntio ar ddysgwyr rhwng 16 ac 19 oed, oedd ag anawsterau dysgu cymedrol, a oedd mewn addysg neu hyfforddiant. Canfu’r cylch gwaith, i’r dysgwyr hyn gyflawni’n dda, fod angen iddynt fagu hyder a hunan-barch a gwella eu medrau sylfaenol a’u medrau allweddol. Mae angen gwaith arnynt sy’n cyd-fynd yn ofalus â’u gallu a thargedau priodol er mwyn gwneud cynnydd.

8 Ym mis Chwefror 2007, lluniodd Estyn gyngor ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol’. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi enghreifftiau o arfer dda sy’n ymddangos; canfu hefyd fod angen gwneud llawer o hyd i greu system unedig i gefnogi dysgwyr yn well a gwella’r broses o arfarnu’r canlyniadau ar gyfer y dysgwyr hynny ledled Cymru.

9 Mae angen ymrwymiad ysgolion ac AALlau ar addysg gynhwysol i ddatblygu polisïau ac arferion sy’n sicrhau cyfle a mynediad addysgol cyfartal; diogelu disgyblion sy’n agored i niwed; a chanolbwyntio ar wella cyflawniad pob dysgwr a chynyddu eu cyfranogiad yn eu hysgolion a’u cymunedau lleol.[2]

10 Mae Cylchlythyr Rhif: 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, yn datgan y bydd mwyafrif y plant a’r bobl ifanc yn mynychu eu hysgol prif ffrwd, er mwyn bod yn gynhwysol. Fodd bynnag, mae gan ysgolion arbennig a darpariaeth ag adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd rôl bwysig o hyd ar gyfer y plant a’r bobl ifanc hynny y mae angen cymorth arbenigol a phenodol arnynt.

11 Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2002 yn pwysleisio bod gan bob plentyn a pherson ifanc ag AAA hawl i addysg prif ffrwd. Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002), yn cynghori mabwysiadu ystod o strategaethau i annog arfer gynhwysol mewn ysgolion.

---

[1] Mae gan blant anhawster dysgu os ydynt: yn cael mwy o anhawster o gryn dipyn yn dysgu na mwyafrif y plant o’r un oedran; neu fod ganddynt anabledd sy’n eu hatal neu’n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant o’r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol. Cod ymarfer anghenion addysgol arbennig Cymru 2002

[2] Cylchlythyr Arweiniad ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion a Chynhwysiad Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhif: 47/2006: Tachwedd 2006

12 Canfu adroddiad diweddar gan Ofsted, ‘Inclusion: does it matter where pupils are taught?’ a gyhoeddwyd yn 2006, nad y math o ddarpariaeth ond ei hansawdd yw’r ffactor pwysicaf wrth bennu’r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion ag anawsterau ac anableddau dysgu. Canfu’r adroddiad fod darpariaeth effeithiol yn cael ei dosbarthu’n gyfartal ar draws ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw, ond roedd mwy o ddarpariaeth dda a rhagorol mewn canolfannau adnoddau ynghlwm ag ysgolion prif ffrwd nag unman arall.

## Sail dystiolaeth yr arolwg

13 Rhwng Hydref 2007 a Chwefror 2008, cynhaliodd Estyn arolwg o awdurdodau addysg lleol a chanolfannau adnoddau unigol ledled Cymru. Anfonodd arolygwyr holiaduron cynhwysfawr i bob AALl ac i’r canolfannau adnoddau unigol hefyd. Ymatebodd bron pob AALl. Ymwelodd arolygwyr â chwe awdurdod addysg lleol hefyd, cynhaliwyd trafodaethau ag uwch swyddogion ac fe wnaethant ymweld ag ystod o’r canolfannau adnoddau hyn sydd ynghlwm wrth ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ystod eu hymweliadau, fe wnaethant gyfarfod â’r penaethiaid, yr athrawon a’r disgyblion.

## Prif ganfyddiadau

### Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio'n strategol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion?

14 Nifer fach iawn o AALlau sydd â pholisïau ffurfiol neu feini prawf clir ar waith ar gyfer derbyn, ac mae gan hyd yn oed llai o AALlau feini prawf clir ar gyfer ymadael pan fydd disgyblion yn gadael y ganolfan adnoddau. O bryd i'w gilydd, mae AALlau yn gwneud y meini prawf derbyn yn rhy eang er mwyn derbyn disgyblion ag ystod eang o anghenion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff fod mor effeithiol ag y gallent fod.

15 At ei gilydd, nid oes gan AALlau drosolwg strategol clir o ran p'un a yw pob disgybl neu grwpiau o ddisgyblion yn cael mynediad i gwricwlwm llawn. Nifer fach iawn o AALlau sydd â chytundebau lefel gwasanaeth â'r ysgolion ag adnoddau sy'n amlinellu'r hyn y mae'r AALl yn disgwyl i'r ysgol ei ddarparu o ran cwricwlwm y ganolfan adnoddau.

16 Mae gan lawer o ddisgyblion sy'n mynychu'r canolfannau adnoddau, sydd ag anawsterau dysgu cymedrol, fwy o anghenion dysgu hefyd fel anawsterau emosiynol ac ymddygiad neu awtistiaeth ac mae ganddynt ystod o anghenion dysgu mwy penodol hefyd fel y rheiny sydd ag anawsterau cyfathrebu neu leferydd ac iaith.

17 Mae rhai AALlau yn dechrau monitro ac arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion yn eu canolfannau adnoddau. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o'r AALlau drosolwg strategol o ran pa mor dda y mae eu canolfannau adnoddau yn dod yn eu blaenau. Mae staff AALl yn gwybod pa mor dda y mae disgyblion unigol yn gwneud, ond nid ydynt yn casglu ac yn dadansoddi data am y grwpiau amrywiol o ddisgyblion, fel y rheiny ag anawsterau dysgu cymedrol, y rheiny ar y sbectrwm awtistig a'r rheiny ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad. O ganlyniad, nid ydynt yn gwybod pa grwpiau sy'n dod yn eu blaenau yn dda a ph'un a yw'r canolfannau adnoddau yn darparu gwerth am arian.

18 Nid yw AALlau yn hyfforddi staff canolfannau adnoddau yn rheolaidd i gasglu a defnyddio data er mwyn canfod pa mor dda y mae unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gwneud.

19 Nid yw AALlau yn adolygu swyddogaethau eu canolfannau adnoddau yn rheolaidd, felly nid ydynt yn gwneud newidiadau priodol sy'n fwy addas ar gyfer anghenion newidiol disgyblion yn yr ardal.

20 Mae'r mynediad ar gyfer disgyblion i ganolfannau adnoddau yn anghyson ledled Cymru. Nid oes gan rai AALlau ganolfannau adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol. Hefyd, lle mae canolfannau adnoddau o'r fath, rhaid i ddisgyblion weithiau deithio'n rhy bell i'w cyrraedd.

21 Mae gan ganolfannau adnoddau rhai AALlau leoedd heb eu llenwi. Mae hyn yn cynrychioli gwerth gwael am arian.

22 Mae gwaith partneriaeth da mewn AALlau ar lefel weithredol, er enghraifft, rhwng y canolfannau adnoddau a'r gwasanaethau cymorth ymddygiad a seicoleg addysg a'r ysgol arbennig leol. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o AALlau drosolwg strategol o sut byddant yn cynnwys asiantaethau eraill wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer disgyblion mewn canolfannau adnoddau. Er enghraifft, nid oes digon o rannu gwybodaeth rhwng yr holl bobl broffesiynol sy'n gysylltiedig. Lle mae system blant integredig, (gweler yr eirfa), caiff gwybodaeth ei rhannu'n dda rhwng adrannau yn yr awdurdod lleol.

23 Mae AALlau yn rhoi cymorth da i staff eu canolfannau adnoddau trwy eu gwasanaethau seicoleg addysg. Fodd bynnag, nid oes digon o AALlau yn cynnig hyfforddiant penodol i staff er mwyn eu helpu i ymdopi ag anghenion cynyddol gymhleth disgyblion yn eu canolfannau adnoddau.

**Pa mor dda yw ansawdd y ddarpariaeth?**

24 Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau adnoddau yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn cyflawni safonau da neu foddhaol ac yn cael mynediad i ystod briodol o gyfleoedd y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn ennill medrau llythrennedd a rhifedd.

25 Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod dda o gymwysterau priodol a chânt gyfleoedd da i ddysgu am fyd gwaith a dod i wybod am fywyd yn y coleg.

26 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'r medrau personol a chymdeithasol y mae eu hangen arnynt ar gyfer byw.

27 Caiff llawer o ddisgyblion ystod dda o gyfleoedd i integreiddio â'u cyfoedion prif ffrwd.

28 Nid yw staff bob amser yn ymdopi'n dda â disgyblion y mae eu hymddygiad yn heriol. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud cystal ag y gallent.

**Pa mor dda yw ansawdd y cynhwysiad?**

29 Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd da i weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn dosbarthiadau prif ffrwd gyda chymorth. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl ledled Cymru yn elwa ar ddigon o gyfleoedd i integreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd.

30 Lle mae cynhwysiad yn gweithio'n dda, mae staff y ganolfan adnoddau yn cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau staff y brif ffrwd fel cyfarfodydd cyfadrannau pwnc a sesiynau briffio ysgol gyfan. Yn gyffredinol, mae staff y brif ffrwd yn wybodus am anghenion disgyblion canolfannau adnoddau er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae staff y brif ffrwd yn amharod i gynnwys y disgyblion hyn yn eu dosbarthiadau gan fod hyn yn cynnwys cynllunio manylach.

31 Caiff disgyblion fynediad da i ystod o weithgareddau allgyrsiol ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn gallu elwa ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol oherwydd nad oes cludiant iddynt y tu hwnt i'r diwrnod ysgol arferol.

32 Mae staff mewn canolfannau adnoddau yn goruchwylio disgyblion yn dda mewn amser distrwythur, gan fod y disgyblion yn agored i niwed ac yn fwy tebygol o gael eu bwlio. Mae’r staff yn cefnogi disgyblion yn dda er mwyn eu helpu i wneud ffrindiau yn yr ysgol a’u cadw.

33 Mae rhai enghreifftiau da o gydweithio agos rhwng canolfannau adnoddau ac ysgolion arbennig i ddarparu cyfleoedd cynhwysiad ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig. Mae staff ysgolion arbennig hefyd yn rhoi hyfforddiant a chyngor i staff mewn canolfannau adnoddau ac addysgu arbenigol ar gyfer y disgyblion.

**Pa mor dda y mae staff yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo?**

34 Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud i leoliadau prif ffrwd ac ymlaen i ysgolion uwchradd. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau er mwyn helpu disgyblion i ymdopi â’r newidiadau. Maent yn eu cyflwyno i bersonél allweddol ac yn mynd â nhw ar ymweliadau cyn symud er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddynt ac fel eu bod yn gwybod beth i’w ddisgwyl.

35 Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn ofalus i gynnwys rhieni yn llawn, a lle bo’n briodol, gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys Cydlynwyr AAA o ysgolion uwchradd.

## Argymhellion

36 Er mwyn sicrhau bod canolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn cyflawni'r canlyniadau a'r cyfleoedd cynhwysiad gorau ar gyfer disgyblion ac yn darparu gwerth am arian:

**dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 gasglu data trylwyr ar leoliad canolfannau adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion a'r grwpiau o ddisgyblion y maent yn gweithio gyda nhw;

A2 parhau i ymestyn y system blant integredig er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn well ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru; ac

A3 annog AALlau i ddatblygu polisïau derbyn ac ymadael cynhwysfawr gyda meini prawf clir ar gyfer canolfannau adnoddau;

**dylai AALlau:**

A4 gynnwys partneriaid allanol yn llawn wrth gynllunio darpariaeth;

A5 casglu a dadansoddi data am ddisgyblion y mae anawsterau dysgu cymedrol wedi'u diffinio fel eu prif angen a grwpiau eraill o ddisgyblion ag anghenion penodol yn eu canolfannau adnoddau i lywio cynllunio strategol;

A6 adolygu grwpiau o ddisgyblion a'u hanghenion mewn canolfannau adnoddau yn rheolaidd a gwneud newidiadau priodol lle bo angen;

A7 llunio polisïau ffurfiol a meini prawf clir ar gyfer derbyn ac ymadael i ddisgyblion sy'n dechrau mewn canolfannau adnoddau ac yn eu gadael;

A8 sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r ysgolion sy'n cynnal canolfannau adnoddau, sy'n amlinellu beth yn union y mae'r AALl yn disgwyl i'r ysgol ei ddarparu; a

A9 gwella'r hyfforddiant a roddir i staff canolfannau adnoddau a rhannu arfer dda ar draws AALlau; a

**dylai ysgolion sy'n cynnal canolfannau adnoddau:**

A10 wella'r hyfforddiant a'r cymorth ar gyfer staff y brif ffrwd sydd â disgyblion o ganolfannau adnoddau yn eu gwersi.

## Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio'n strategol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion?

### Sut mae AALlau yn cynllunio i fodloni anghenion disgyblion?

37 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn cynllunio'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol trwy asesu eu hanghenion yn ofalus i lywio cynlluniau addysg unigol (CAUau) cynhwysfawr gyda thargedau ar gyfer gwella. Yn y canolfannau adnoddau, maent yn defnyddio staff arbenigol i gefnogi anghenion disgyblion, ac mae cymhareb staff i ddisgybl uwch na mewn ysgol prif ffrwd. Fodd bynnag, er gwaethaf cynllunio gofalus, o bryd i'w gilydd, mae ystod eang anghenion disgyblion yn y canolfannau adnoddau yn ei gwneud yn anodd i athrawon fodloni anghenion pob disgybl. Hefyd, nid yw AALlau yn casglu nac yn dadansoddi gwybodaeth am gynnydd a chanlyniadau disgyblion unigol yn ddigon da er mwyn cynnal trosolwg strategol o ran pa mor dda y mae eu canolfannau adnoddau yn bodloni anghenion y disgyblion.

38 Nid yw AALlau yn adolygu swyddogaethau'r canolfannau adnoddau hyn yn rheolaidd. Mae gan lawer o ddisgyblion sydd yn y canolfannau adnoddau ar hyn o bryd, a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol, anghenion gwahanol a mwy cymhleth erbyn hyn. Mae gan bob un o'r disgyblion mewn canolfannau adnoddau anghenion lleferydd ac iaith, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Mae angen cymorth ar lawer o ddisgyblion â datblygiad cymdeithasol a'u hymddygiad hefyd. Mae nifer gynyddol o ddisgyblion ag anhwylderau sbectrwm awtistig yn mynychu'r canolfannau adnoddau hyn oherwydd bod prinder darpariaeth arbenigol.

### Pa mor hawdd yw hi i ddisgyblion gael mynediad i ganolfannau adnoddau?

39 Nid yw disgyblion ledled Cymru yn cael mynediad cyfartal i adnoddau. Nid oes gan AALlau feini prawf clir ar gyfer derbyn, ac nid oes gan lawer ohonynt bolisïau derbyn ffurfiol. Ar hyn o bryd, mae rhai AALlau yn datblygu protocolau i wella'r broses dderbyn. Nid yw rhai ysgolion cynradd lleol yn ystyried canolfannau adnoddau cynradd AALlau yn adnodd ardal ac maent yn eu defnyddio yn amhriodol ar gyfer gormod o'u disgyblion eu hunain.

40 Mae costau cludiant a'r pellter hir o gartref y disgyblion i'r ganolfan adnoddau weithiau'n golygu nad yw disgyblion yn gallu cael mynediad hawdd i'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mewn un AALl nifer fach iawn o ddisgyblion o ogledd y sir sy'n mynd i ganolfan adnoddau yn ne'r sir. Mewn AALl gwledig mawr arall, nid yw disgyblion mewn dalgylchoedd tair ysgol uwchradd yn gallu defnyddio canolfan adnoddau. Mae gan un ganolfan adnoddau uwchradd ddisgyblion o AALlau eraill ac, o ganlyniad, mae rhai disgyblion yn teithio'n bell iawn. Mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd canolbwyntio oherwydd eu bod wedi blino.

41 Mae gan y rhan fwyaf o AALlau baneli derbyn tymhorol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, pan fydd lleoedd gwag yn y canolfannau adnoddau, mae AALlau yn rhoi disgyblion mewn canolfan, beth bynnag fo'u hanghenion penodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn mynd i'r ganolfan adnoddau ag ystod rhy eang o anghenion, yn enwedig anawsterau ymddygiad. Mae hyn yn golygu nad yw'r staff mor effeithiol ag y

gallent fod oherwydd nad ydynt wedi'u hyfforddi i ymdrin ag ymddygiad heriol. Mewn un AALl, mae ysgolion uwchradd a chynradd sydd â chanolfannau adnoddau ynghlwm wrthynt, weithiau'n rhy araf yn derbyn disgyblion ac maent yn rhy ddethol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn aros am gyfnodau hir, yn aml nifer o fisoedd. Er bod gan AALlau yr awdurdod i roi cyfarwyddyd i'r ganolfan adnoddau gymryd y disgybl, maent yn amharod i ddefnyddio'r awdurdod hwn.

42 Mae ysgolion ag adnoddau weithiau'n rhoi disgyblion ag anawsterau ymddygiad yn y ganolfan adnoddau am gyfnodau byr yn amhriodol er mwyn galluogi eu hathrawon prif ffrwd i fynd ymlaen â'u haddysgu.

43 Mewn un AALl lle mae ysgolion bach iawn dan fygythiad o gael eu had-drefnu, nid yw am i'r ganolfan adnoddau ymddangos fel pe bai'n methu bodloni anghenion unrhyw ddisgybl oherwydd gallai hyn gefnogi dadl o blaid cau. Felly, nid ydynt yn codi problem yn ymwneud â lleoliadau amhriodol.

44 Mae'r ffaith nad yw rhai canolfannau adnoddau AALlau yn cael eu defnyddio ddigon ac nad yw'r AALl yn cynnal adolygiad o'u defnydd er mwyn bodloni unrhyw anghenion sy'n codi yn destun pryder. Nid yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian.

**Pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio i ddisgyblion gael mynediad llawn i'r cwricwlwm?**

45 Nifer fach iawn o AALlau sydd â chytundeb lefel gwasanaeth â phob ysgol sydd ag adnoddau sy'n datgan y dylai'r ysgol gynnig y cwricwlwm cenedlaethol llawn i bob disgybl. Mae AALlau yn dibynnu gormod ar ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion unigol i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr hawl hon.

46 Nid yw mynediad disgyblion i'r cwricwlwm yn gyson ar draws awdurdodau addysg lleol. Er enghraifft, mae gan un AALl 'ddisgwyliad cyffredinol' bod disgyblion yn cael mynediad llawn ond y gellir eu datgymhwyso o bynciau yn ôl yr angen. Mae AALl arall yn cydnabod bod mynediad i'r cwricwlwm cenedlaethol yn anghyson ac yn cynnal cynllun peilot o brosiect i gynorthwyo cysondeb arfer. Mae rhai AALlau yn cynnal cyfarfodydd rheoli rheolaidd y mae seicolegwyr addysg ardal yn eu mynychu a sesiynau hyfforddi ar gyfer staff i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol.

**Pa mor dda y mae AALlau yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gynllunio ar gyfer disgyblion?**

47 Nid oes gan y rhan fwyaf o AALlau drosolwg strategol clir o sut byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gynllunio darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion unigol neu grwpiau ohonynt. Fodd bynnag, yn aml iawn, ceir gweithio da o ddydd i ddydd rhwng gweithwyr proffesiynol yn yr AALl. Mae hyn yn cynnwys fforymau defnyddiol i staff canolfannau adnoddau eu mynychu, fel cyfarfodydd panel, fforymau ysgolion arbennig, grwpiau llywio AAA, fforymau ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) a grwpiau strategaeth cynhwysiad. Nid yw'r rhan fwyaf o AALlau yn cyfarfod yn ffurfiol nac yn rheolaidd gyda phartneriaid allanol i gynllunio darpariaeth. Roedd un AALl yn cydnabod rôl allweddol y Bwrdd Iechyd Lleol o ran rhoi gwybod i'r AALl am blant ag anawsterau dysgu o oedran ifanc iawn. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o AALlau yn dibynnu gormod ar yr

adolygiadau blynyddol a'r broses asesu statudol, lle mae gan ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, i nodi'r mynediad ar gyfer disgyblion unigol i gefnogaeth gan asiantaethau eraill. Mae un AALl yn amhriodol yn disgwyl i'r athro sy'n gyfrifol am y ganolfan adnoddau arwain y gwaith partneriaeth strategol hwn.

48 Mae llawer o asiantaethau a phartneriaethau yn ymwneud i ryw raddau â rhoi cymorth i ddisgyblion unigol mewn canolfannau adnoddau, ond mae hyn yn digwydd yn gyffredinol yn ôl anghenion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS);
- timau troseddau ieuenctid;
- nyrsys ysgol;
- gwasanaethau Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio (ADHD);
- adrannau gwasanaethau cymdeithasol;
- byrddau iechyd lleol (BILlau);
- therapyddion lleferydd ac iaith;
- y fframwaith plant a phobl ifanc;
- ffisiotherapyddion;
- therapyddion galwedigaethol;
- Gyrfa Cymru;
- y sector gwirfoddol; a'r
- gwasanaeth ieuenctid.

49 Lle mae'r cyswllt rhwng yr awdurdod addysg lleol ac asiantaethau eraill yn arbennig o dda, ceir llinellau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu'n dda, fel grŵp cyswllt addysg CAMHS. Mae llawer o asiantaethau yn aml yn ymwneud yn amhriodol â mentrau hyfforddi. Er enghraifft, mae un adran gwasanaethau cymdeithasol yn darparu canolfan adnoddau ysgol uwchradd gyda chwrs ymwybyddiaeth rywiol gynhwysfawr ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

50 Nid yw'r broses o rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr addysg proffesiynol mewn AALlau a hefyd rhwng asiantaethau addysg ac asiantaethau eraill yn ddigon da. Mewn un AALl, mae'r broses o drosglwyddo data o un ysgol i'r llall yn drafferthus. Yn ychwanegol, pan fydd ysgolion yn cael gwybodaeth am ddisgyblion yn eu canolfan adnoddau sydd ynghlwm wrth yr ysgol, nid ydynt bob amser yn ei rhannu â phob un o'r staff ysgol perthnasol.

51 Mewn llawer o AALlau, mae gormod o rwystrau rhag rhannu gwybodaeth am ddisgyblion mewn canolfannau adnoddau. Mae hyn oherwydd bod angen cyfrinachedd gan y byrddau iechyd lleol, ac i raddau llai, adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i ganolfannau adnoddau

gynllunio ar gyfer disgybl cyn ei dderbyn. Mae diffyg systemau TG cyffredin ar draws awdurdodau lleol hefyd yn cyfyngu rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw un AALl lle mae cynllun peilot o'r System Plant Integredig (ICS) yn cael unrhyw anhawster â rhannu gwybodaeth.

**Pa mor dda y mae AALlau yn cefnogi staff canolfannau adnoddau?**

52 Caiff y rhan fwyaf o ganolfannau adnoddau gymorth da iawn gan y gwasanaethau seicoleg ardal sy'n darparu amser dynodedig rheolaidd. Caiff pob un o staff canolfannau adnoddau fynediad llawn i raglenni datblygu staff AALlau. Fodd bynnag, nid oes digon o AALlau yn cynnig hyfforddiant penodol i gefnogi staff i ymdopi ag anghenion mwy cymhleth disgyblion. Er enghraifft, ni chafodd un ganolfan adnoddau hyfforddiant mewn trafod â llaw er gwaethaf y ffaith bod ganddi nifer o ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys. Mae disgyblion ag ymddygiad heriol iawn mewn llawer o ganolfannau adnoddau, ond nid yw pob un o'r staff yn cael cymorth digon da i reoli hyn yn dda.

53 Mae rhai AALlau yn trefnu rhwydweithiau ar gyfer staff canolfannau adnoddau er mwyn iddynt allu trafod a rhannu arfer dda a rhoi cymorth i'w gilydd. Fodd bynnag, mae angen i lawer o AALlau eraill wneud mwy i fynd i'r afael ag arwahanrwydd staff yn y lleoliadau hyn.

**Pa mor dda y mae AALlau yn monitro ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion?**

54 At ei gilydd, nid yw AALlau yn gwneud digon i fonitro ansawdd y ddarpariaeth na'r canlyniadau ar gyfer disgyblion mewn canolfannau adnoddau. Mae AALlau yn gwneud yn siŵr bod staff yn asesu disgyblion unigol yn ofalus ac yn gosod targedau priodol ar eu cyfer yn eu CAUau. Maent yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn bob blwyddyn trwy'r adolygiadau anghenion addysgol arbennig, gyda mewnbwn da o wasanaethau seicoleg addysg AALlau. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion nad oes ganddynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ac sy'n cael cymorth Gweithredu gan yr Ysgol yn gallu manteisio ar yr adolygiadau hyn. Lle mae disgyblion yn mynychu canolfannau adnoddau y tu allan i'r sir, mae'r awdurdod lleol yn mynychu adolygiadau blynyddol ond nid yw bob amser yn cael digon o gyswllt â staff canolfannau adnoddau yn ystod gweddill y flwyddyn.

55 Nid yw AALlau yn hyfforddi staff mewn canolfannau adnoddau i ddefnyddio data fel mater o drefn, gan gynnwys gwybodaeth feincnodi, lle mae ar gael, i arfarnu canlyniadau dysgu ar gyfer eu disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff wybod pa mor dda y maent yn gwneud i helpu disgyblion i wneud cynnydd.

56 Mae ymgynghorwyr AALlau yn ymweld â'r canolfannau adnoddau yn rheolaidd ac yn herio penaethiaid yn briodol ar ansawdd y targedau a osodir ar gyfer disgyblion unigol. Mae llawer o AALlau yn gwneud defnydd da o fesurau cynnydd parod fel INSTEP a phrofion darllen a sillafu i ddarparu data meintiol. Fodd bynnag, nifer fach iawn o AALlau sydd â throsolwg o ba mor dda y mae grwpiau o ddisgyblion yn eu canolfannau adnoddau yn gwneud. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i AALlau lunio barnau ynglŷn â ph'un a yw'r canolfannau adnoddau hyn yn darparu gwerth am arian ai peidio. Yn gyffredinol, nid yw AALlau yn casglu data ar grwpiau o ddisgyblion i gynllunio ar gyfer gwella. Mae llawer o AALlau yn ymwybodol o'r angen i wneud hyn ond nid ydynt eto yn gwybod sut.

57 Mae rhai AALlau yn dechrau canolbwyntio mwy ar fonitro ac arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion mewn canolfannau adnoddau. Er enghraifft, mae dau AALl yn datblygu systemau a data meincnodi ar hyn o bryd i olrhain cynnydd disgyblion a'i gymharu â chynnydd disgyblion mewn ysgolion arbennig.

## Pa mor dda yw ansawdd y ddarpariaeth yn y canolfannau adnoddau?

58 Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau adnoddau yr ymwelwyd â nhw, mae'r ddarpariaeth yn dda ac mae disgyblion yn cyflawni safonau cyflawniad da neu foddhaol. Yn y canolfannau adnoddau yr ymwelwyd â nhw, caiff y rhan fwyaf o'r disgyblion o bob oedran fynediad da i ystod o gyfleoedd cwricwlwm priodol, gan gynnwys defnydd llawn o dechnoleg gwybodaeth yn yr ysgol ag adnoddau.

59 Mae gan y rhan fwyaf o'r canolfannau adnoddau reolau clir, sy'n cael eu harddangos yn amlwg er mwyn i'r disgyblion wybod yn union sut y dylent ymddwyn. Er enghraifft, cânt eu hannog i wrando ar y siaradwr a ddewiswyd a chadw eu dwylo, eu traed, gwrthrychau a geiriau cas iddyn nhw eu hunain. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i'r cyfarwyddiadau syml hyn.

60 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd er bod y cynnydd hwn yn araf o'i gymharu â data meincnod ar gyfer perfformiad ym mhob cyfnod allweddol. Lle nad yw safonau disgyblion cystal ag y dylent fod, mae hyn yn aml oherwydd bod gan y disgyblion hyn anawsterau ymddygiad hefyd sy'n herio staff.

61 Mae disgyblion mewn canolfannau adnoddau uwchradd hefyd yn ennill ystod eang o gymwysterau priodol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhain yn cynnwys:

- medrau allweddol mewn cyfathrebu a rhifedd ar lefelau un i dri;
- Dyfarniadau Cychwynnol y Gynghrair Asesu a Chymwysterau (AQA);
- Lefelau mynediad mewn Mathemateg a Saesneg;
- gwobrau Dug Caeredin;
- Dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu (ASDAN);
- Dyfarniadau'r Bwrdd Siarad Saesneg;
- y Dystysgrif Effeithiolrwydd Personol;
- dyfarniadau'r Rhwydwaith Coleg Agored a Chymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (CGCau) a enillwyd trwy gyrsiau cyswllt colegau; a
- Thystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd (TGAUau).

62 Mae disgyblion mewn canolfannau adnoddau yn datblygu medrau personol a chymdeithasol priodol. Cânt gyfleoedd da i gael profiad o fyd gwaith a datblygu'r medrau y mae eu hangen arnynt ar gyfer byw yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu colegau ar gyfer cyrsiau cyswllt rhan-amser. Mewn un ganolfan adnoddau uwchradd, mae disgyblion yn dilyn cwrs cyn-16 fel rhan o'u llwybr dysgu. Mewn canolfan adnoddau uwchradd arall, mae llawer o ddisgyblion yn ennill tri neu bedwar cymhwyster TGAU ac yn mynd ymlaen i goleg neu ddysgu yn y gwaith.

63 Mae disgyblion mewn canolfannau adnoddau cynradd yn gwneud cynnydd araf ond cyson, yn aml o waelodlin isel iawn. Mae rhai canolfannau adnoddau yn gwneud defnydd da iawn o raddfeydd P i ddangos camau cynnydd bach i ddisgyblion, oherwydd yn aml ni ellir mesur hyn gan brofion safonol. Mewn un ganolfan adnoddau gynradd, roedd rhai disgyblion yn dychwelyd i ysgolion prif ffrwd yn ystod Blwyddyn 6 neu Flwyddyn 7. Mae rhai yn symud ymlaen i ysgolion arbennig.

## Pa mor dda yw ansawdd y cynhwysiad?

### Mynediad i ddosbarthiadau a gweithgareddau'r brif ffrwd

64 Yn yr ysgolion uwchradd, lle mae cynhwysiad yn gweithio'n arbennig o dda, mae penaethiaid y canolfannau adnoddau yn aelodau o'r uwch dîm rheoli. Nid yw athrawon yn y ganolfan adnoddau yn teimlo eu bod ar wahân ac maent wedi'u cysylltu â chyfadrannau pwnc yn yr ysgol brif ffrwd. Maent yn mynychu sesiynau briffio ysgol gyfan ac maent yn rhan o'r systemau ysgol gyfan, gan gynnwys y polisi ymddygiad.

65 Ar y cyfan, mae llawer o staff canolfannau adnoddau yn rhoi ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion integreiddio â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Mewn canolfannau adnoddau ysgolion uwchradd, lle bynnag y bo modd, caiff disgyblion eu haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd neu yn y ganolfan adnoddau gan athrawon pwnc prif ffrwd. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer cymaint â 60% o'u hwythnos ysgol. O ganlyniad, maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau ysgol.

66 Yn gyffredinol, mewn canolfannau adnoddau ysgolion uwchradd, mae disgyblion wedi'u cofrestru â dosbarthiadau prif ffrwd ac yn cymryd rhan ym mhob gweithgaredd gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd, fel gwasanaethau, ymweliadau addysgol, Eisteddfod yr Urdd a thripiau dramor. Maent hefyd yn mynychu clybiau prif ffrwd fel rygbi, gwyddbwyll, rhedeg traws gwlad a drama. Mae gan un ganolfan adnoddau uwchradd gynrychiolwyr o ddisgyblion ar gyngor yr ysgol.

67 Fodd bynnag, i'r disgyblion hynny sy'n gadael ar ddiwedd y dydd ac nad ydynt yn byw yn yr ardal, nid yw hi bob tro yn bosibl iddynt aros ymlaen ar ôl yr ysgol. Nid oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer cludiant ychwanegol. Mae hyn yn golygu y gallent golli cyfleoedd cymdeithasol pwysig.

68 Mae'r rhan fwyaf o staff canolfannau adnoddau yn gwneud yn siwr bod disgyblion yn cael goruchwyliaeth ychwanegol yn ystod amser distrwythur, fel amser chwarae ac amser cinio. Mae'r disgyblion hyn yn agored i gael eu bwlio ac nid ydynt yn ymdopi'n dda â bod gyda grwpiau mawr o ddisgyblion eraill. Mae rhai canolfannau adnoddau yn gweithredu gyda system gyfeillion effeithiol sy'n cysylltu disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd â'r rheiny yn y ganolfan adnoddau.

### Pa mor wybodus yw staff prif ffrwd am anghenion disgyblion

69 Yn gyffredinol, mae staff prif ffrwd yn wybodus am anghenion y disgyblion. Mewn llawer o ganolfannau adnoddau cynradd, mae disgyblion yn mynychu'n rhan-amser yn y bore neu'r prynhawn. Mae athrawon canolfannau adnoddau yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r athrawon o ysgolion prif ffrwd y disgyblion hyn â darparu cwricwlwm sy'n gweddu'n dda i anghenion a galluoedd disgyblion.

70 Er enghraifft, mae un ganolfan adnoddau yn trefnu sesiwn friffio AAA ar gyfer pob un o'r staff bob wythnos i amlygu materion penodol ar gyfer disgyblion yn y ganolfan adnoddau, a gwybodaeth amdanynt. Mewn canolfan adnoddau gynradd arall, mae'r pennaeth yn cyfarfod â'r pennaeth asesu yn rheolaidd i fonitro faint o fynediad a gaiff disgyblion i fedrau sylfaenol yn eu dosbarthiadau prif ffrwd.

71 Pan fydd staff canolfannau adnoddau yn mynychu cyrsiau, maent yn aml yn siarad â staff prif ffrwd am yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Er enghraifft, mewn canolfan adnoddau cyfnodau allweddol 1 a 2, fe wnaeth aelod o staff adrodd yn ôl i bob un o'r staff ar yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu am awtistiaeth. Mae canolfan adnoddau gynradd arall yn cynnal 'cymorthfeydd' rheolaidd ar gyfer staff prif ffrwd ar sut i ysgrifennu cynlluniau addysg unigol (CAUau) fel eu bod yn cynnwys targedau penodol sy'n arwain at ganlyniadau mesuradwy.

72 Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae staff canolfannau adnoddau yn canfod bod staff prif ffrwd yn amharod i gynnwys eu disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd gan fod hyn yn golygu cynllunio manylach i fodloni eu hanghenion.

## Cymryd rhan gydag ysgolion eraill

73 Er bod llawer o ddisgyblion mewn canolfannau adnoddau ledled Cymru yn elwa ar gyfleoedd i integreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd, nid yw hyn yn wir bob tro. Mae canolfannau adnoddau weithiau'n ei chael yn anodd cefnogi cyfleoedd integreiddio am nad oes ganddynt ddigon o gynorthwywyr cymorth dysgu i fynd gyda disgyblion, nad ydynt yn gallu ymdopi ar eu pen eu hunain, i ddosbarthiadau prif ffrwd.

74 Mae staff canolfannau adnoddau yn rhoi cymorth da i ddisgyblion sy'n dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd. Maent yn creu rhaglenni integreiddio wedi'u cyflwyno'n ofalus lle mae cyfleoedd integreiddio disgyblion yn cynyddu wrth iddynt ddod yn fwy hyderus.

75 Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd neu eu hysgolion cynradd gwreiddiol, neu maent yn symud i ysgolion uwchradd prif ffrwd o'r canolfannau adnoddau hyn. Mae eu hanghenion yn rhy ddwys a bydd angen cymorth arbenigol â ffocws arnynt bob amser i gael mynediad i ddysgu.

76 Er bod gan lawer o ganolfannau adnoddau feini prawf ar gyfer derbyn, nifer fach iawn ohonynt sydd â meini prawf clir ar gyfer ymadael pan fydd disgyblion yn gadael y ganolfan adnoddau. Nid yw athrawon bob amser yn gwybod beth y disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni er mwyn dychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, gall disgyblion aros yn rhy hir yn y ganolfan adnoddau.

77 Mewn rhai achosion, mae cysylltiadau da iawn rhwng y canolfannau adnoddau ac ysgolion arbennig lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys gwaith allymestyn gan staff o'r naill ysgol neu'r llall i gynnig cymorth cwricwlwm. Hefyd, mae disgyblion yn mynychu'r ysgol arbennig neu'r ganolfan adnoddau er mwyn cael profiad o gwricwlwm ehangach.

## Pa mor dda y mae staff yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo?

78 Mae'r rhan fwyaf o staff yn paratoi disgyblion yn ofalus, ac yn cynnwys rhieni yn llawn, fel bod disgyblion yn gallu cael y gorau o'r symud i leoliadau prif ffrwd neu ymlaen i ganolfannau adnoddau uwchradd. Mae rhai staff canolfannau adnoddau yn briodol yn dechrau cynllunio lle bydd disgyblion yn symud ymlaen iddo yn yr adolygiadau Blwyddyn 5.

79 Mae'r rhan fwyaf o athrawon y canolfannau adnoddau yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chydlynwyr AAA yr ysgolion uwchradd trwy gydol Blwyddyn 6 fel bod Cydlynwyr AAA yn gwbl ymwybodol o anghenion y disgyblion sy'n symud i'w hysgol.

80 Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio ystod o ddulliau i roi sicrwydd i ddisgyblion a sicrhau bod y broses o'u trosglwyddo i ysgolion uwchradd yn ddidrafferth. Mae dulliau staff yn cynnwys ymweliadau rheolaidd ag ysgolion uwchradd i gyfarfod â'u hathrawon newydd. Mae un AALl wedi datblygu pecyn defnyddiol er mwyn helpu disgyblion i symud i'r ysgol uwchradd yn llwyddiannus; gweler atodiad 1, astudiaeth achos 6. Mae disgyblion canolfannau adnoddau cynradd yn aml yn cynllunio digwyddiadau ac yn gwahodd athrawon o'r ysgol uwchradd er mwyn iddynt allu cyfarfod â nhw cyn iddynt symud i'w hysgol.

81 Mae un ysgol uwchradd yn darparu gwaith trosglwyddo i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar gyfer y ganolfan adnoddau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgyfarwyddo â disgwyliadau'r ysgol uwchradd ac yn helpu'r ysgol uwchradd i ddeall lefelau gallu'r disgyblion. Mae rhai ysgolion uwchradd yn darparu ysgolion haf ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r ysgol o ganolfannau adnoddau. Mae canolfan adnoddau arall wedi gwneud defnydd da o arian RHAGORI i gyflogi athro arbenigol i fonitro cynnydd disgyblion yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol uwchradd.

82 Caiff disgyblion mewn canolfannau adnoddau uwchradd gyfleoedd da i ymgyfarwyddo â'u coleg lleol, ac maent yn ymweld yn rheolaidd cyn symud ymlaen. Mae arbenigwyr Gyrfa Cymru bob amser yn cymryd rhan ac maent yn rhoi cyngor defnyddiol.

83 Mae llawer o staff canolfannau adnoddau yn gwahodd rhieni ac ystod o weithwyr proffesiynol i adolygiadau blynyddol disgyblion cyn newid ysgolion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion heb ddatganiadau yn elwa ar ystod eu cyfranogiad proffesiynol i'w helpu yn ystod eu cyfnod trosglwyddo.

## Atodiad 1: Arfer dda

**Astudiaeth achos 1**

**Archwilio canolfannau adnoddau yn ofalus**

**AALl yn Ne Ddwyrain Cymru**

Mae'r AALl hwn yn adolygu gwaith ei ganolfannau adnoddau ar hyn o bryd er mwyn iddynt allu bod yn fwy effeithiol. Mae'r AALl hefyd wedi cyflogi ymgynghorydd i arfarnu safonau cyflawniad ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ei ysgolion prif ffrwd. Mae'r AALl yn pryderu, er ei fod yn dadansoddi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion fel rhan o raglenni gwella ysgolion, bod angen i'r broses o grynhoi a dadansoddi data yn benodol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu eu canolfannau adnoddau gynnwys mwy o ffocws. Ar hyn o bryd, mae tîm AAA yr AALl yn ystyried sut i ddefnyddio data INSTEP i ddylanwadu ar, a chyfeirio cynlluniau gweithredu canolfannau adnoddau ar gyfer gwella. Mae'r AALl hwn wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant dwys yn ddiweddar i ysgolion ddefnyddio'r proffil hunanarfarnu AAA er mwyn iddynt allu arfarnu ansawdd eu canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA.

**Astudiaeth achos 2**

**Monitro darpariaeth a chanlyniadau ar gyfer disgyblion yn fwy gofalus**

**AALl yng nghymoedd De Cymru ac AALl yn Ne Orllewin Cymru**

Mae'r AALl hwn wedi nodi lefelau isel o gynnydd academaidd yn ei ganolfannau adnoddau ac wedi datblygu pecyn camau bach ar gyfer sgorio cynnydd i ganolfannau adnoddau ei ddefnyddio. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys arfarniad o ba mor dda y mae disgyblion yn gweithio gydag eraill a'u medrau cymdeithasol datblygol. Mae hyn yn helpu athrawon i asesu cynnydd disgyblion. Mae AALl arall wedi diwygio ei gofnodion adolygu blynyddol yn ddiweddar er mwyn iddo gael mynediad haws i ganlyniadau dysgu. Mae'n bwriadu arfarnu canlyniadau dysgu disgyblion nid yn unig ar lefel canolfan adnoddau ond ar draws yr awdurdod hefyd.

**Astudiaeth achos 3**

**Helpu disgyblion i deimlo'n gartrefol yn yr ysgol y maent yn symud iddi**

**AALl yn Ne Cymru**

Mae staff anghenion arbennig o ysgol gyfun yn ymweld â'r ganolfan adnoddau gynradd gyda disgyblion Blwyddyn 7. Mae'r disgyblion Blwyddyn 7 hyn yn sôn wrth y disgyblion cynradd am fywyd yn yr ysgol uwchradd a'r hyn y dylent ei ddisgwyl. Maent yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y disgyblion cynradd ac yn esbonio sut cânt eu cefnogi yn ystod gwersi a chan staff yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau dysgwyr canolfannau adnoddau y byddant yn parhau i gael cymorth da pan fyddant yn symud.

**Astudiaeth achos 4**

**Gweithio'n agos gyda'r ysgolion arbennig lleol**

**Dwy ysgol arbennig, un yn Ne Cymru a'r llall yng Ngogledd Cymru**

Mae gweithiwr allymestyn o ysgol arbennig wedi darparu meddalwedd a hyfforddiant ar gyfer staff yng nghanolfan adnoddau'r ysgol uwchradd i gyflwyno 'B squared'. Pecyn asesu yw 'B squared' sy'n cefnogi'r broses o fonitro ac arfarnu cynnydd disgyblion y mae eu cyrhaeddiad yn is.

Gall disgyblion o un ganolfan adnoddau fynychu'r ysgol arbennig ar leoliadau rhan-amser ac mae'r ganolfan adnoddau yn derbyn disgyblion o'r ysgol arbennig er mwyn iddynt gael mynediad i wersi prif ffrwd. Mae disgyblion yn y ganolfan adnoddau hon yn elwa ar sesiynau gydag athro nofio'r ysgol arbennig sy'n rhoi ymarferion ffisiotherapi gwerthfawr iddynt ym mhwll nofio'r ganolfan hamdden sydd drws nesaf i'w hysgol.

Sefydlodd canolfan adnoddau arall brosiect llwyddiannus iawn ar fedrau allweddol gydag ysgol arbennig fawr. Mynychodd disgyblion o'r ddwy ysgol gwrs preswyl tridiau. Gwnaeth pob un o'r disgyblion gynnydd da mewn medrau allweddol. Oherwydd llwyddiant y prosiect, fe'i cyflwynwyd i'r Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd lleol fel y gellid ei fabwysiadu ar gyfer pob disgybl.

**Astudiaeth achos 5**

**Darparu cyfleoedd galwedigaethol fel rhan o lwybr dysgu**

**Canolfannau adnoddau yn Ne a Gorllewin Cymru**

Mae un ganolfan adnoddau uwchradd yn gweithio'n agos iawn â choleg trydyddol lleol i ddarparu cyrsiau galwedigaethol cyn-16 fel rhan o lwybrau dysgu disgyblion. Mae disgyblion yn mynychu cyrsiau mewn plymwaith, gweithgynhyrchu ac adeiladu. Maent yn magu hyder ac yn dod yn gyfarwydd â'r coleg er mwyn iddynt fod yn gyfforddus â symud i gwrs coleg amser llawn pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae disgyblion o ganolfan adnoddau arall i gyd yn symud ymlaen i ddysgu yn y gwaith neu goleg. Mae disgyblion yn ymweld â'r coleg trwy gydol Blynyddoedd 10 ac 11 gyda'u rhieni neu eu gofalwyr. Mae swyddog gyrfaoedd arbenigol yn rhoi cymorth da iawn iddynt. Mae'r coleg yn darparu wythnos 'ragflas' ar gyfer disgyblion cyn iddynt ddechrau ym mis Medi. Caiff y disgyblion hyn gyfleoedd da iawn i ddod i adnabod y coleg cyn iddynt ymuno a goresgyn unrhyw ofnau sydd ganddynt.

**Astudiaeth achos 6**

**Hwyluso'r trosglwyddo rhwng dau gyfnod – Gogledd Cymru**

Mae un AALl wedi datblygu pecyn trosglwyddo cynradd/uwchradd cynhwysfawr. Mae hwn yn helpu disgyblion i ddeall beth fydd yn digwydd pan fyddant yn symud i'r ysgol newydd. Crëwyd y pecyn gan weithgor o Gydlynwyr AAA cynradd, staff canolfannau adnoddau a swyddogion cynhwysiad AALl. Mae'r pecyn yn cynnwys manylion am anghenion pob disgybl, llyfryn o'r enw 'Symud ysgol' sy'n cael ei gwblhau gan bob plentyn a phecynnau gwersi i helpu'r disgyblion i ddysgu medrau cysyniadau allweddol. Mae hyn yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus.

Mae staff mewn canolfan adnoddau ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru yn gweithio'n agos â'r ysgol uwchradd leol. Mae'r ysgol uwchradd yn darparu gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn y ganolfan adnoddau fel eu bod yn dod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol uwchradd. O ganlyniad, mae staff yr ysgol uwchradd yn ennill dealltwriaeth dda o lefelau gallu'r disgyblion cyn iddynt symud ymlaen i'r ysgol.

**Astudiaeth achos 7**

**Darparu cyfleoedd i ddisgyblion o'r ganolfan adnoddau ryngweithio â'u cyfoedion yn y brif ffrwd – Gorllewin a Gogledd Cymru**

Mae canolfan adnoddau un ysgol gynradd ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn darparu system 'cyfaill' ar gyfer y disgyblion yn y ganolfan adnoddau. Pan fydd disgyblion yn ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd fel Addysg Gorfforol, daw eu 'cyfaill' i fynd â nhw i'r dosbarth, gan wirio bod ganddynt yr offer sydd ei angen arnynt ac yna'n dod â nhw'n ôl i'w canolfan adnoddau ar ddiwedd y wers.

Mae canolfan adnoddau gynradd arall yn creu 'cylch o ffrindiau' ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed y mae angen cymorth arnynt i wneud ffrindiau a'u cadw, ac a fyddai fel arall ar eu pennau'u hunain yn yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion o'r canolfannau adnoddau i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi gan eu cyfoedion.

**Astudiaeth achos 8**

**Gwneud defnydd da o arbenigedd staff canolfannau adnoddau i gefnogi staff prif ffrwd**

Mae staff mewn canolfan adnoddau gynradd yn Ne Cymru yn gwneud defnydd da iawn o'u harbenigedd i gefnogi staff prif ffrwd. Maent yn cynnal 'cymorthfeydd' rheolaidd ar gyfer staff prif ffrwd ar sut i ysgrifennu cynlluniau addysg unigol fel eu bod yn cynnwys targedau wedi'u hysgrifennu'n ofalus sy'n arwain at ganlyniadau mesuradwy. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn ac mae disgyblion yn elwa ar dargedau penodol.

**Astudiaeth achos 9**

**Monitro cynhwysiad yn agos**

Mae canolfan adnoddau gynradd yng Ngogledd Cymru wedi datblygu ffurflen ddefnyddiol ar gyfer monitro cynhwysiad sy'n amlinellu'r staff sydd ynghlwm, unrhyw wahaniaethu sydd ei angen a'r cymorth a gynigir. Mae cynorthwyydd cymorth dysgu'r ganolfan adnoddau hon, sy'n cefnogi disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn defnyddio'r rhain yn dda i gofnodi beth yn union y mae'r disgybl wedi'i gyflawni a pha mor dda yr oedd cynnwys y wers yn cyd-fynd ag anghenion a galluoedd pob un o'r disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella cynnydd disgyblion.

**Astudiaeth achos 10**

**Gweithio'n agos â rhieni a gofalwyr**

Mae athrawon mewn canolfan adnoddau yng Ngogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn â rhieni a gofalwyr. Maent yn gwahodd rhieni a gofalwyr i ymweld cyn i'r disgybl ymuno â'r ganolfan adnoddau. Cânt gyfle i weld gwaith disgyblion a siarad â'r staff. Mae'r staff yn annog rhieni a gofalwyr i gymryd rhan yn llawn trwy greu cofnod cartref/ysgol. Maent hefyd yn cynnig cymorth i rieni a gofalwyr â materion sy'n peri pryder iddynt fel ymddygiad disgyblion. Caiff y pryderon hyn eu cofnodi ar daflen cofnodi pryderon ac mae staff y ganolfan adnoddau yn ychwanegu eu hymateb. Mae'r ffurflen yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt allu defnyddio'r un dulliau gartref â'r rheiny a ddefnyddir yn y ganolfan adnoddau. Caiff y gwaith hwn ei fonitro'n agos a'i adolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, caiff disgyblion y cymorth sydd ei angen arnynt gartref i wneud cynnydd da.

## Atodiad 2: Geirfa / cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **Cydlynydd AAA** | Cydlynydd anghenion addysgol arbennig; athro sy'n cydlynu gwaith ysgol i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig |
| **Datgymhwyso** | Cael gwared ar, neu godi rhaglen astudio, targed cyrhaeddiad, asesiad, neu unrhyw ran arall o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, gan gynnwys pynciau cyfan neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfan trwy reoliadau perthnasol |
| **Graddfeydd P** | Meini prawf asesu ar gyfer cynnydd islaw lefel un yn rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yw graddfeydd P. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion 5-16 oed. Fe'u datblygwyd i gefnogi'r broses o osod targedau trwy ddefnyddio asesu crynodol i'w ddefnyddio ar ddiwedd cyfnodau allweddol, ac ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gwneud cynnydd cyflym, o bosibl unwaith y flwyddyn. |
| **Gweithredu gan yr Ysgol** | Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc yn nodi bod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig, maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol i, neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir fel rhan o gynnig a strategaethau cwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol. |
| **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** | Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc a'r Cydlynydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, er mwyn gallu rhoi ymyriadau eraill sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rheiny a ddarparwyd ar gyfer y disgybl trwy weithredu gan yr ysgol ar waith. Mae'r Cydlynydd AAA fel arfer yn arwain er mai'r athro pwnc neu'r athro dosbarth sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth o ddydd i ddydd. |
| **INSTEP** | System o asesu ac olrhain cynnydd disgyblion sy'n gweithio islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n seiliedig ar raddfeydd P y Cwricwlwm Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| **RHAGORI** | ‘Gwella cyrhaeddiad safonau unigol mewn addysg’, sef grant a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i AALlau er mwyn iddynt allu gwella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg |
| **System Plant Integredig** | Mae’r System Plant Integredig yn darparu’r sylfaen i ddatblygu system electronig ar gyfer cofnodi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol a’u hasiantaethau partner gyda phlant. |